## Tîm Dyslecsia

# Dyscalcwlia

Rydym ar y Llawr Gwaelod Isaf, Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg, Bangor, LL57 2DF

Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad i weld cynghorwr:

**Ffôn: 01248 383620 / 01248 382032**
**E-bost:** gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

http://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/dyslexia.php.cy

**Mae'r daflen ar gael mewn gwahanol fformatau**

Credir bod **dyscalcwlia** yn deillio o wahaniaethau sylfaenol mewn prosesau gwybyddol. Nodweddion dyscalcwlia yw anawsterau amgyffred cysyniadau'n ymwneud â rhifau, mesuriadau a chydberthnasau gofodol.

Dyma rai o'r problemau sy'n gysylltiedig â dyscalcwlia:

- Deall cysyniadau'n ymwneud â mesuriadau a chofio ffeithiau rhifau sylfaenol.
- Dysgu cysyniadau amser, yn cynnwys dilyniant digwyddiadau'r gorffennol a'r dyfodol.
- Cyfeiriadedd gofodol a chyfeiriadau.
- Rhoi gweithrediadau rhifau mewn trefn; trefnu gwybodaeth ddilyniannol.
- Deall a chofio ffeithiau a fformiwlâu penodol er mwyn gwneud cyfrifiadau mathemategol.
- Ymdrin ag arian a rheoli cyfrifon banc yn effeithiol.
- Defnyddio'r cof gweithio i brosesu cyfrifiadau meddyliol.

"I mi, mae rhifau fel iaith estron nad ydw i'n gallu ei siarad."
Mo Hooper, 2010[1]

Er gwaethaf yr anawsterau hyn, mae strategaethau penodol ar gael i fyfyrwyr i leihau'r pryder mathemategol a achosir gan dyscalcwlia, yn ogystal â goresgyn unrhyw un o'r anawsterau hyn.

[1] http://www.dystalk.com/forum/dyscalculia/138-dyscalculia